**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

16 Mehefin 2023

Annwyl Eluned

Deintyddiaeth

Diolch am eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar ddeintyddiaeth. Trafodwyd eich ymateb yn ein cyfarfod ar 14 Mehefin 2023, a chytunwyd i ysgrifennu atoch cyn y ddadl yr wythnos nesaf ar adroddiad y Pwyllgor i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion sy'n codi o'ch ymateb. Byddai'n ddefnyddiol ateb y pwyntiau hyn naill ai yn eich cyfraniad i'r ddadl, neu yn ysgrifenedig wedi hynny.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer creu rhestr aros ganolog, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd 2023. Fel cam dros dro, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn creu rhestr aros ganolog ar gyfer ei ardal erbyn diwedd 2023.

Yn eich ymateb i argymhelliad 3, rydych chi'n dweud bod swyddogion eisoes mewn trafodaethau gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i gwmpasu dyluniad ar gyfer rhestr aros ddeintyddol Cymru gyfan. Mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod modd cyflawni hyn o fewn y flwyddyn ariannol nesaf a bod cyllid wedi'i neilltuo i ariannu'r prosiect. Fodd bynnag, yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mai, dywedoch chi eich bod yn gobeithio y bydd cofrestrfa ddata ganolog ar waith erbyn diwedd y flwyddyn hon.

1. A allwch chi egluro pryd y caiff rhestr aros ganolog ei chyflwyno.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion ar gyfer casglu data drwy ddeintyddion y GIG er mwyn symleiddio'r broses a lleihau dyblygu gwaith. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2023, a dylid rhoi gwybod i ni beth yw'r canfyddiadau erbyn mis Mawrth 2024 fan bellaf.

Yn eich ymateb i argymhelliad 5, rydych chi'n dweud y byddwch chi'n gofyn i'r gweithgor perthnasol adolygu'r argymhelliad hwn a nodi opsiynau i leihau'r baich gweinyddol.

2. A allwch chi gadarnhau y byddwch yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda chanfyddiadau'r grŵp erbyn y dyddiad sydd wedi'i bennu yn ein hargymhelliad?

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth ar gyfer y gweithlu deintyddol yn adlewyrchu'r dyheadau newydd a'r angen am fwy o gymysgedd sgiliau yn y gweithlu, a dylid cyhoeddi'r strategaeth hon cyn gynted â phosibl. Gan fod disgwyl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael y drafft ym mis Rhagfyr 2022, dylid cyhoeddi'r strategaeth derfynol erbyn gwanwyn 2023 fan bellaf.

Yn eich ymateb i argymhelliad 8, rydych chi'n dweud na fydd cynllun y gweithlu yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol tan fis Gorffennaf 2023.

3. A allwch chi roi rhagor o fanylion am gynnwys cynllun y gweithlu ac a yw'n adlewyrchu'r dyheadau newidiol a'r angen am gymysgedd sgiliau ehangach yn y gweithlu, fel y mae'r argymhelliad yn ei nodi?

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi therapyddion deintyddol i gael rhif perfformiwr, a dylai roi amserlen i ni ar gyfer gwneud hyn.

Yn eich ymateb, rydych chi'n dweud, yn dilyn cyhoeddiad GIG Lloegr y bydd therapyddion deintyddol a hylenyddion bellach yn cael agor a chau cyrsiau triniaeth, nad oes angen newid deddfwriaethol ar hyn o bryd, ac mae swyddogion bellach yn paratoi cyfathrebiadau i fyrddau iechyd i egluro sut y bydd y newid hwn yn cael ei weithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

4. A allwch chi gadarnhau nad oes bellach angen rhif perfformiwr ar therapyddion deintyddol i agor a chau cyrsiau triniaeth?

5. A allwch chi hefyd egluro beth yw ystyr 'y flwyddyn ariannol nesaf', h.y. a fydd y newid yn dod i rym o fis Ebrill 2024?

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r rhaglen Gwên am Byth i leoliadau preswyl eraill, fel cartrefi gofal i bobl iau sy'n agored i niwed, tai gwarchod a thai gofal ychwanegol, gan adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd 2023..

Mae eich ymateb yn nodi, ers derbyn yr argymhelliad, eich bod wedi canfod bod rhai byrddau iechyd eisoes yn ymgysylltu â'r mathau hyn o wasanaethau, a hynny drwy eu gwasanaethau deintyddol cymunedol. Ar ben hynny, er bod y rhaglen ei hun wedi'i hanelu at bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, mae'r adnoddau ar gael am ddim drwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gwên am byth - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru).

6. A allwch chi roi manylion am ba fyrddau iechyd y cyfeirir atynt, a nifer a math y lleoliadau?

7. A allwch chi gadarnhau hefyd pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r rhaglen Gwên am Byth yn y byrddau iechyd sy'n weddill?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynd i'r afael â'r materion hyn yn eich ymateb i'r ddadl. Os nad yw'n bosibl i chi grybwyll yr holl faterion hyn yn ystod y ddadl, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb yn ysgrifenedig erbyn 6 Gorffennaf 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.